# LLOFRUDDIA

# ESTHER DA

## BLAENDUAD,

Ffarmdy yn sefyll rhwng Cynwyl a Llanpumsant,
yn swydd Gaerfyrddin.

---

## CAN NEWYDD,

Yn rhoddi hanes am y Llofruddiaeth arswydus a gyflawnwyd yn y lle uchod Nos Iau, y 4ydd o Dachwedd, 1869, ar gorff Mrs. Esther Davis, gwraig y tŷ, trwy saethu ati trwy y ffenestr, pan oedd yn rhanu bwyd i'r teulu.

CENIR AR Y MESUR "DEIO BACH."

Er preswylio'n ngwlad Efengyl,
Ac er meddu Bibl Duw,
A chenhadon i'n hyfforddi
Am yr uniawn ffordd i fyw,
Drwg weithredoedd a gyflawnir
Yn rhy fynych yn ein gwlad,
Medd'dod, lledrad, ac anlladrwydd,
Ac ar brydiau dywallt gwa'd.

Y mae'r mwrddrad yn Mlaenduad
Yn achosi gofid blin,

... rhoi dangosiad eglur
... ddrygioni calon dyn;
...oedd y gelyn yn dyfeisio,
Yntau'r drygddyn wrth ei law,
I gymeryd bywyd ymaith,
Hyn sy'n achos poen a braw.

Yno'r oedd y wraig rinweddol
O fewn muriau'i thŷ ei hun,
Yn darparu bwyd i'w ranu
Rhwng y teulu yn gytun,
Ond pan ydoedd wrth y gorchwyl,
Ac heb ddysgwyl unrhyw frad,
Ca'dd ei saethu trwy y ffenest'
Nes y cwympodd yn ei gwa'd.

Clywyd swn yr ergyd creulon
Gan y dynion oedd ynghyd,
Ac fe u synwyd gan fawr arswyd,
Aeth pob tafod yno'n fud;
Ond fe deimlai'r wraig yr ergyd
Yn archolli'i dwyfron hi,
Ac fe redai'i gwaed yn ffrydiau
Nes y lliwiai lawr y tŷ.

*Shots* a *bwlet* dan ei chalon
Wnaeth y wraig yn dyllau mân,
Hefyd darn o *lass* y ffenest'
Nes ei gwneyd yn llwyd ei grân;

Yr052 37508

Ac wrth geisio symud yma...
Dwedai "Pwy a'm saethodd i...
Ond heb ddwedyd gair yn rhago...
Syrthiai'n farw yn y tŷ.

Nid oedd wedi bod yn briod
Ond pum wythnos yn lled brin,
Pan y saethwyd mor fradwrus
Ati'r ergyd marwol hyn;
Ac ni chlywyd gair anmharchus
Am ei buchedd hi erioed,
Ond rhyw gnaf a gym'rai'i bywyd
Pan ond dwy ar hugain oed.

Mae'r amgylchiad yn guddiedig
Pwy a wnaeth fath weithred flin,
Ond i fyny ar ddrwgdybiaeth
Cym'rwyd brawd ei gwr ei hun;
Ond er bod gerbron ynadon
Dridiau yn ngharchardy'r wlad,
Methai'r profion yn ei erbyn
Felly cafodd hwn ryddhad.

Yr holl wlad sy'n awr mewn cyffro,
Prudd alara bro a bryn,
A'r heddgeidwaid sy'n ymchwilio
Pwy a wnaeth fath beth a hyn;
Anghlod yw i wlad ein tadau,
A brycheuyn ar Sir Gaer,

...ydd mor barchus am ei rhinwedd
  Ag un sir ar wyneb dae'r.

Mae'r Llywodraeth wedi teimlo
  Dros anrhydedd Cymru lân,
Rhoddant ganpunt am gael gafael
  Yn y llofrudd hyll ei rân;
Dal yr unig un a'i lladdodd
  Ydyw'r ymgais wneir drwy'r wlad
Fel na byddo un drwgdybiaeth
  Ar y sawl sy'n rhydd o'i gwa'd.

Os na phrofir i foddlonrwydd
  Pwy gyflawnodd hyn o frad,
Pan y byddo'r weithred erchyll
  Dan ymholiad llys y wlad,
Duw sy'n gwybod am y drygddyn,
  Ac ni chuddir 'mono ef
Pan fo'r Barnwr ar ei orsedd
  Yn ei brofi'n llys y nef.

Gwyliwn, gwyliwn, a gweddiwn,
  Byth na chaffo'r gelyn drwg,
Fantais arnom er ein denu
  I goleddu llid na gwg,
Ac ymdrechwn rodio'n uniawn
  Er boddlonrwydd Brenin hedd,
Fel na chaffom gosp dragwyddol
  Yn y wlad sydd is na'r bedd.